Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Portffolio Trawsnewid Gweinyddu **Meddyginiaethau'n** Ddigidol
Digital **Medicines** Transformation Portfolio

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Cronfa Arloesi System Fferylliaeth yn y Gymuned (CPSIF)

Ffurflen Gais

Gall busnesau sydd wedi u cofrestru yn y DU sydd â r potensial i gyflenwi system ddosbarthu sy n barod ar gyfer gwasanaeth presgripsiwn electronig (EPS) yng Nghymru wneud cais am gyfanswm grant o hyd at £111,562.50 ar draws tair haen i alluogi trosglwyddo presgripsiynau n electronig yng Nghymru. Mae cyllid ar gael i ddatblygu r systemau sydd eu hangen i ddigideiddio fferylliaeth gymunedol yng Nghymru a chefnogi gweithgareddau i roi gwasanaeth presgripsiwn electronig (EPS) ar waith, a fydd yn arwain at brosesu presgripsiwn EPS byw yn llwyddiannus yng Nghymru drwy system cofnod meddyginiaeth claf (PMR) sicr (haen 1, hyd at £55,781). Gall ymgeiswyr ofyn am gymorth i ddatblygu a gweithredu newidiadau a fyddai n lleihau r gofynion ar gyfer defnyddio papur mewn fferyllfeydd yng Nghymru gan arwain at brawf o daith presgripsiwn di bapur (haen 2, hyd at £27,891), a/neu ddatblygu dull o fewn cynllun PMR sy n cynhyrchu hysbysiad gwthio i Ap GIG Cymru i hysbysu cleifion bod meddyginiaethau n barod i w casglu (gan gynnwys lleoliad fferyllfa ac oriau agor) (haen 3, hyd at £27,891).

I gael manylion llawn y meini prawf cymhwysedd, cwmpas a dyddiadau cau, a gwybodaeth berthnasol arall, gweler y ddogfen ganllaw gysylltiedig â r rhaglen ariannu hon. Dylai ymgeiswyr lenwi r ffurflen gais hon yn llawn a i chyflwyno gydag unrhyw ddogfennaeth ategol ofynnol i CymorthCyllido@hwbgbcymru.com cyn y dyddiad cau.

Ni ddylai ffurflenni cais wedi u cwblhau fod yn hwy na 15 tudalen o hyd. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu fasnachol sensitif yn y deunydd a gyflwynwch i ni.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd partïon at ddibenion asesu eich cais yn erbyn y cwmpas a r meini prawf cymhwysedd. Rhaid i chi beidio â dechrau gweithio ar unrhyw weithgareddau a ariennir cyn i chi dderbyn y llythyr penderfyniad.

Cwblhewch bob adran o r ffurflen. Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio r cyfeiriad e bost uchod.

ADRAN 1 - Manylion yr ymgeisydd

Gwybodaeth Cwmni

Byddwn yn defnyddio'r manylion a ddarperir i gynnal gwiriadau ar y cwmni, gan gynnwys Adroddiad Creditsafe a manylion Tŷ'r Cwmnïau. Sylwch, os byddwch yn llwyddiannus, bydd angen i chi roi tystiolaeth i ni o gyfrif banc yn y DU yn enw'r cwmni sy'n ymgeisio y gellir talu arian iddo.

Enw Cofrestredig y Cwmni	
Cyfeiriad llawn y cwmni	
Rhif cwmni	**Rhif cofrestru TAW**

Maint y cwmni — I gael arweiniad ar faint cwmni, gweler gwefan Tŷ'r Cwmnïau (Saesneg yn unig)

☐ Micro/Bach ☐ Canolig ☐ Mawr

Manylion unrhyw riant-gwmnïau neu gwmnïau cysylltiedig

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cymhorthdal mae angen i ni sicrhau eich bod wedi datgan yr holl gymorthdaliadau gan yr endid cyfreithiol sengl (grŵp cwmni) y mae eich cwmni yn perthyn iddo yn Adran 12 y ffurflen gais hon.

A fydd eich gweithgareddau prosiect arfaethedig yn effeithio ar fasnach ar draws ffin Gogledd Iwerddon/yr Undeb Ewropeaidd?

☐ Ie ☐ Na

Rhowch ymateb oes/nac oes a gwybodaeth i ategu eich ateb.

Oes gennych chi gyfrif banc yn y DU yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio?

☐ Ie ☐ Na

Atodwch dystiolaeth o'ch cyfrif banc. Gall hwn fod yn gyfriflen banc wedi'i golygu.

Rhif cyfrif	**Cod didoli**
Cyfeiriad bilio	

Manylion Ymgeisydd Arweiniol

Sylwch fod yn rhaid i'r prif ymgeisydd a enwir fod yn Gyfarwyddwr Ariannol neu'n gyfwerth a bod ganddo'r gallu i lofnodi dogfennau sy'n gyfreithiol rwymol ar ran y cwmni.

Enw'r Prif Ymgeisydd		**Rôl y prif ymgeisydd**	
Rhif ffôn			
Cyfeiriad e-bost			

ADRAN 2 - Manylion y prosiect

Teitl y prosiect arfaethedig			
Dyddiad dechrau		**Dyddiad gorffen**	

Ni ddylai'r gwaith sydd i'w ariannu ddechrau cyn i chi dderbyn unrhyw gynnig o gyllid a wneir trwy lythyr swyddogol gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig os/pryd y gallwch ddechrau gweithio. Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn gwneud cynigion cyllid cyn 1 Ebrill 2023. Rhaid i bob gweithgaredd a ariennir ddod i ben cyn 31 Ionawr 2025, a rhaid cwblhau pob cais am gyllid cyn 31 Mawrth 2025.

Crynodeb o'r prosiect

Disgrifiwch yn gryno y prosiect y byddwch yn ymgymryd ag ef. Cynhwyswch pa haenau ariannu yr ydych yn bwriadu gwneud cais amdanynt yn y cais hwn. Os nad ydych yn gwneud cais am yr holl haenau ariannu yn y cais hwn, nodwch a ydych yn bwriadu gwneud cais yn ddiweddarach ar gyfer haenau 2 a 3. Defnyddiwch ddim mwy na 400 o eiriau.

ADRAN 3 - Cwmpas

Disgrifiwch sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â chwmpas y rhaglen ariannu. Dylech gyfeirio at yr allbynnau o fewn y cwmpas a'r meini prawf llwyddiant a ddisgrifir yn y ddogfen ganllaw ar gyfer pob haen ariannu.

Efallai y byddwch am esbonio eich cymhelliant ar gyfer y prosiect; sut y bydd allbynnau eich prosiect yn cefnogi darparu Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yng Nghymru, taith presgripsiwn di-bapur yng Nghymru a/neu anfon hysbysiad gwthio i Ap GIG Cymru; sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf llwyddiant ar gyfer pob haen; sut bydd allbynnau'r prosiect yn cael eu cyflenwi i fferyllfeydd yng Nghymru. Gallwch atodi PDF i gefnogi eich ateb.

ADRAN 9 - Costau

Rhowch amcangyfrif o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r prosiect.

Dim ond costau refeniw amlwg sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau o fewn y cwmpas sy'n gymwys ar gyfer cyllid grant. Rhaid atodi dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem â gwerth dros £1,000, gyda dau ddyfynbris am bob eitem â gwerth dros £1,999, gyda thri dyfynbris ar gyfer pob eitem â gwerth dros £5,000. Os nad ydych wedi dewis y dyfynbris rhataf, rhaid i chi roi cyfiawnhad. Nid oes angen dyfynbrisiau ar gyfer costau staff mewnol, ond rhaid i chi ddarparu cyfradd ddyddiol yn y disgrifiad, yn ogystal â chyfanswm cost, a gallwch wirio'n annibynnol a yw'r rhain yn rhesymol.

Rhif yr eitem	Disgrifiad o'r eitem	Cyflenwr	Cost (£)	I ba haen mae'r gost yn berthnasol?	Dyfynbris ynghlwm
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
					☐
Cyfanswm costau refeniw net y prosiect			£ 0.00		

Eglurwch sut mae'r prosiect yn cynrychioli gwerth am arian.

Ystyriwch y costau y gofynnwyd amdanynt mewn perthynas â chyfanswm costau'r gwaith. Ystyriwch y cyfraddau dydd ar gyfer staff sy'n gweithio ar y prosiect.

ADRAN 10 - Statws cymhorthdal

Rhowch ddatganiad llawn ar gyfer y canlynol yn y ffurflen isod ar gyfer y grŵp cwmni sy'n ymgeisio (endid sengl):

- **Unrhyw gymorthdaliadau Cymorth Gwladwriaethol a ddyfarnwyd ar sail y rheoliad de minimis yn ystod y tair blynedd diwethaf; ac**
- **Unrhyw gymhorthdal a ddyfarnwyd ar sail y cymorth ariannol lleiaf posibl (neu ragflaenydd cyfatebol heblaw am y rheoliad de minimis) yn ystod y tair blynedd diwethaf.**

Ceir rhagor o wybodaeth am gymorthdaliadau yn y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal a Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Enw'r dyfarniad	Enw cynllun cymhorthdal	Dyddiad dyfarnu	Swm y dyfarniad (£)	Corff dyfarnu
		CYFANSWM	£ 0.00	

Sylwch mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw datgan yn llawn yr holl gymorthdaliadau a ddyfarnwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Os ydych yn ansicr a ydych wedi derbyn cymhorthdal, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

ARDAN 11 - Datganiad

Rwy'n datgan y canlynol:

- Rwyf wedi fy awdurdodi ar ran y cwmni a enwir yn Adran 1 y ffurflen hon i gwblhau a chyflwyno'r cais hwn ar eu rhan;
- Hyd y gwn i, mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir ar adeg ei chyflwyno;
- Mae'r cwmni sy'n ymgeisio yn hyfyw (h.y. yn gweithredu fel busnes gweithredol) ar y dyddiad llofnodi isod;
- Nid yw'r cwmni sy'n ymgeisio na'r unigolion a enwir yn destun unrhyw ymgyfreithiad perthnasol cyfredol;
- Mae'r holl drwyddedau ac yswiriant yn eu lle i ganiatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen, gan gynnwys yswiriant indemniad proffesiynol;
- Mae gan y cwmni sy'n ymgeisio ddigon o adnoddau i i wneud taliadau ymlaen llaw ar gyfer gweithgareddau prosiect, gyda dyddiadau talu ar ôl y pwynt pan fydd y cwmni'n darparu tystiolaeth addas (ar ffurf allbynnau dangosadwy a gwariant gwirioneddol) i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, i'w dilysu a'i phrosesu;
- Rwy'n fodlon i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a phartneriaid cyflenwi gynnwys gwybodaeth am y cwmni, unrhyw grant a ddyfernir ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall nad yw'n gyfrinachol megis cyhoeddiadau gwefan ac astudiaethau achos;
- Os bydd grant yn cael ei ddyfarnu i'r cwmni a enwir yn Adran 1, rwy'n fodlon i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ddarparu'r manylion sydd eu hangen i gydymffurfio â rheoliadau'r DU ar dryloywder ar gyfer cymorthdaliadau i drydydd parti, ac i'r trydydd parti gyhoeddi data gofynnol yn y parth cyhoeddus.

ARDAN 11 - Datganiad yn parhau

Wrth lofnodi'r datganiad hwn, cytunaf i'r holl wybodaeth a ddarparwyd gennyf mewn perthynas â'r cais hwn gael ei defnyddio gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i bartneriaid i asesu'r cais hwn mewn perthynas â chwmpas a meini prawf cymhwysedd y rhaglen ariannu.

Pe bai angen tystiolaeth ar Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i gefnogi'r datganiad hwn, cytunaf i ddarparu hyn mewn modd amserol.

Rwy'n cydsynio i'r data a ddarperir gennyf yn y cais hwn gael eu casglu ac yn cytuno iddynt gael eu prosesu a'u defnyddio yn unol ag Erthygl 5 UK GDPR 2018 a hysbysiad preifatrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch storio neu ddefnyddio eich data, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r sefydliad yn helo@hwbgbcymru.com.

Llofnodwyd:		**Llofnodwyd*:** Nid oes angen ail lofnod oni bai bod eich strwythur sefydliadol yn golygu bod hyn yn angenrheidiol.	
Enw		**Enw**	
Swydd		**Swydd**	
Dyddiad		**Dyddiad**	
Llofnod		**Llofnod**	

Rhestr Wirio Ymgeisio

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob adran o'r ffurflen gais a'r dogfennau atodedig i gefnogi'ch ymateb fel isod.

Sylwch, os nad ydych wedi atodi'r holl ddogfennau gofynnol, efallai y caiff eich cais ei wrthod neu ei ohirio.

- ☐ ADRAN 1 - Cyfriflen banc y cwmni wedi'i olygu
- ☐ ADRAN 3 - Tystiolaeth sy'n profi ei fod yn gweddu i'r cwmpas
- ☐ ADRAN 6 - Tystiolaeth i gefnogi'r sefyllfa bresennol yn y farchnad
- ☐ ADRAN 7 - Map Trywydd
- ☐ ADRAN 9 - Dyfynbrisau i gefnogi costau